# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 26 Medi 2018

Amser: 09.30 - 11.15

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5089

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mike Hedges AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Dawn Bowden AC<br>Jayne Bryant AC<br>Andrew RT Davies AC<br>Helen Mary Jones AC<br>Dai Lloyd AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | Cathy Madge, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>Eurgain Powell, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc)<br>Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br>Chloe Corbyn (Ymchwilydd)<br>Katy Orford (Ymchwilydd) |

| | |
|---|---|
| | Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd Andrew RT Davies AC i'r cyfarfod fel aelod parhaol newydd o'r Pwyllgor a diolchodd i'r Aelodau blaenorol am eu cyfraniad at ei waith.

Croesawodd y Cadeirydd Helen Mary Jones AC hefyd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod gyda chytundeb y Cadeirydd o dan Reol Sefydlog 17.49.

## 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Broses o Graffu ar y Gyllideb Ddrafft

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Eurgain Powell a Cathy Madge o Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar naratif cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19 ac ar y disgwyliadau ar gyfer cyllideb ddrafft 2019-20.

## 3 Papur(au) i'w nodi

Nododd y Pwyllgor yr holl bapurau o dan eitem 3.

3.1 Ymateb gan Brif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru i'r Gwaith Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16

3.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017-18

3.3 Ymateb gyda'r wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar ei Waith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19

3.4 Ymateb gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i adroddiad y Pwyllgor ar Fframweithiau Cyffredin ar gyfer yr Amgylchedd ar ôl Brexit

3.5 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar drefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit

3.6 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar gaffael bwyd yn y sector cyhoeddus

3.7 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar fframweithiau cyffredin ar gyfer yr amgylchedd ar ôl Brexit

3.8 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig: Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru 2018-2023 a Chynllun Gweithredu 2018-2019

3.9 Gohebiaeth ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ynghylch craffu ar gyllidebau carbon

3.10 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft

3.11 Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

Cytunodd y Pwyllgor i gynnal gweddill y cyfarfod mewn sesiwn breifat.

## 5 Trafod yr adroddiad drafft ar effaith Brexit ar bysgodfeydd yng Nghymru

Trafododd a chytunodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar effaith Brexit ar bysgodfeydd yng Nghymru.

## 6 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Bil Amaethyddiaeth

Derbyniodd y Pwyllgor friff llafar ar Fil Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU gan swyddogion Comisiwn y Cynulliad.

## 7 Papur ar waith yn y dyfodol

Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ar gyfer tymor yr hydref a chytunodd arni. Cytunodd hefyd i wneud gwaith yn y dyfodol ar fioamrywiaeth ac ar seilwaith dŵr Cymru.

## 8 Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch monitro Brexit

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gwasanaeth Ymchwil ar ddatblygiadau diweddar o ran Brexit ym maes polisi amgylcheddol.